



Croeso
Cymru

Llysgenhadon Twristiaeth
Astudiaeth Achos:
Bannau Brycheiniog



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Astudiaeth Achos Llysgenhadon Twristiaeth: Bannau Brycheiniog

Trosolwg

Sawl Llysgennad/Cyfarchwr?	120
Pwy ydynt?	Yn bennaf, perchnogion a gweithwyr cyflogedig mewn busnesau twristiaeth yn y Parc Cenedlaethol, a rhai gwirfoddolwyr eraill sydd â diddordeb
Pa ardal maen nhw'n ymwneud â hi?	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Pa hyfforddiant?	WorldHost, 'Naws am Le' a 'Pharc agos at Eich Calon'
Pryd sefydlwyd y cynllun?	2009
Ydy e'n dal i fynd?	Ydy



Astudiaeth Achos Llysgenhadon Twristiaeth: Bannau Brycheiniog

Disgrifiad o'r rhaglen

Dechreuodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB) ddatblygu cysylltiadau gyda darparwyr twristiaeth yn eu hardal tua 25 mlynedd yn ôl er mwyn annog eu cydweithrediad gyda'r ddarpariaeth dwristiaeth gyffredinol yn y Parc.

Aethent ati i gysylltu â'r holl ddarparwyr twristiaeth yn y Parc, gan glustnodi rhan o'r arian i gynnig ymweliadau ymgyfarwyddo i'r fasnach dwristiaeth mewn gwahanol leoliadau o amgylch y Parc Cenedlaethol. Aethent ati hefyd i ddatblygu modiwlau hyfforddiant, ar 'Fwyd' a 'Threftadaeth', i helpu i hysbysu darparwyr twristiaeth ynglŷn â'r hyn sydd gan y parc cyfan i'w gynnig, y tu hwnt i'w tref neu eu pentref eu hunain yn unig.

Dros flynyddoedd lawer, datblygwyd y rhaglen hon i greu hyfforddiant mwy manwl, am fod y sector yma eisiau gwybod mwy am y Parc Cenedlaethol a'r hyn sydd ganddo i'w gynnig i'w hymwelwyr. Yn y pendraw, esblygodd y gweithgareddau hyn i greu cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd mor llwyddiannus heddiw.

Pam y sefydlwyd hwn?

Nod gwreiddiol y Parc wrth sefydlu cysylltiadau gyda darparwyr twristiaeth oedd rhoi'r offer a'r wybodaeth iddynt i'w galluogi i hysbysu eu gwesteion ac ymwelwyr eraill am weithgareddau a chyfleusterau yn y Parc Cenedlaethol, gyda'r gobaith y byddent yn annog pobl i aros yn hirach a dychwelyd i'r ardal.

Mae'r nod cyffredinol hwn yn parhau yr un fath yn ei hanfod, gyda'r amcanion ar gyfer datblygu cynllun Llysgenhadon PCBB wedi'u mynegi'n fwy diweddar fel yma:

- Dyfnhau gwybodaeth busnesau twristiaeth am y Parc
- Pasio eu gwybodaeth a'u hangerdd am y Parc i ymwelwyr
- Dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr a helpu gyda rheolaeth ymwelwyr
- Datblygu perthynas dda gyda'r Parc

Pryd gychwynwyd hwn?

Cychwynnodd y cynllun cyfredol i greu Llysgenhadon PCBB cwbl hyfforddedig yn 2009.

Syniad pwy ydoedd?

Cychwynnwyd a datblygwyd y cynllun gan Awdurdod PCBB.

Astudiaeth Achos Llysgenhadon Twristiaeth: Bannau Brycheiniog

Sut y cafodd ei ddatblygu?

Wedi hynny datblygodd yr hyfforddiant i Lysgenhadon yn dri diwrnod llawn o hyfforddiant.

Yn 2007, comisiynwyd adroddiad gan PCBB i chwilio am y sail ar gyfer 'Naws am Le', naws cymeriad unigryw'r ardaloedd lleol o bob rhan o'r Parc. Darparodd yr adroddiad hwn y themâu (e.e. Adeiladau, Iaith, a Threftadaeth) ar gyfer modiwl hyfforddi Llysgenhadon 'Naws am Le' sy'n darparu sesiwn hyfforddi hysbys wedi'i ymchwilio'n dda sy'n briodol i bob ardal unigol yn y Parc Cenedlaethol.

Bu staff yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn helpu i greu'r ail fodiwl hyfforddi 'Parc agos at Eich Calon', sy'n ymdrin â 480 miliwn mlynedd o orffennol y Parc, ei ddaear, ei dirlun, a'i fywyd gwylt; mae'r modiwl hwn hefyd yn ystyried sut y gallai newid yn yr hinsawdd effeithio ar Fannau Brycheiniog – a sut y gallai busnesau twristiaeth a'u gwesteion helpu i leihau'r newidiadau hyn drwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus er enghraifft.

Y trydydd diwrnod o hyfforddiant, sy'n cwblhau'r rhaglen Llysgenhadon, yw 'WorldHost: Egwyddorion Gwasanaethu Cwsmeriaid'.

Mae staff y Parc yn darparu'r modiwl 'Parc agos at Eich Calon'. Darperir yr hyfforddiant ar gyfer 'Naws am Le' a WorldHost gan ddarparwr allanol.



O 'Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy ym Mannau Brycheiniog 2012-2016'

Cydnabyddir bod darparu gwybodaeth a dehongliad drwy ledu'r gair i ymwelwyr lle maen nhw, yn hytrach na gofyn iddynt fynd i ganolfannau penodol, yn ffordd hynod effeithiol o gyfathrebu syniadau a negeseuon.

Cafodd hyn ei wneud yn dda ym Mannau Brycheiniog drwy'r cynllun Llysgenhadon sy'n rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i unigolion sydd wedi derbyn hyfforddiant ynglŷn â gwybodaeth am yr ardal a ffyrdd o fynegi'r wybodaeth honno.

Astudiaeth Achos Llysgenhadon Twristiaeth: Bannau Brycheiniog

Agwedd

Sut mae pobl yn dod yn rhan o'r rhaglen Llysgenhadon?

Cyflwyniadau gan staff PCBB i ddarparwyr twristiaeth a lledu'r gair trwy dafod leferydd

Pwy yw'r bobl yma?

- Roedd y bobl a benodwyd i ddechrau i dderbyn hyfforddiant fel Llysgenhadon oll yn ddarparwyr llety o fewn y parc, ac yn rhan o'u busnes, roeddent yn cwrdd ag ymwelwyr wyneb yn wyneb bob dydd.
- Cynigir hyfforddiant i Lysgenhadon i ystod eang o bobl sy'n gysylltiedig â thwristiaeth erbyn hyn, gan gynnwys arweinwyr teithiau cerdded, ffotograffwyr, darparwyr gweithgareddau a staff o westai mawrion.

Digwyddiadau

- Pan fyddent wedi'u hyfforddi'n llawn, gwahoddir Llysgenhadon i ddigwyddiadau a chynigir hyfforddiant pellach gan yr Awdurdod PCBB.
- Cynhelir cynhadledd bob gwanwyn i ddod â Llysgenhadon at ei gilydd i ddysgu a rhwydweithio.

Hyfforddiant

- I ddod yn Llysgenhadon PCBB, rhaid i hyfforddeion gwblhau cwrs tri diwrnod yn llwyddiannus sy'n cynnwys y tri modiwl: 'Naws am Le'; 'Parc agos at Eich Calon'; a WorldHost.
- Ar ôl cwblhau'r cwrs, cyflwynir tystysgrif i Lysgenhadon ynghyd â sticer car a map o'r Parc i'w harddangos ar wal eu sefydliad.

Gweithgareddau ac amseriad

Mae'r Awdurdod PCBB yn rhedeg y cwrs hyfforddi Llysgenhadon tri diwrnod dair gwaith y flwyddyn i hyfforddi Llysgenhadon newydd y Parc.



Astudiaeth Achos Llysgenhadon Twristiaeth: Bannau Brycheiniog

Heddiw a Thu Hwnt

Y gwaith hyd yn hyn

Yn fuan yn natblygiad y rhaglen hyfforddi Llysgenhadon, sylweddolodd y staff ei bod hi'n hanfodol cynnal y berthynas rhwng y Parc a'r fasnach dwristiaeth yr oedd yr hyfforddiant wedi eu darparu. I fedi manteision tymor hir y rhaglen, roedd hi'n hanfodol cadw diddordeb y Llysgenhadon yn y Parc a dal i hybu ei gynnydd twristiaeth. Arweiniodd yr ystyriaethau hyn at y syniad o **Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i Lysgenhadon:**

- Ar ôl cwblhau'r tri modiwl craidd, mae gofyn i'r Llysgenhadon i gyd wneud rhyw fath o hyfforddiant neu fynd i ddigwyddiad cymeradwy gyda'r PCBB bob blwyddyn er mwyn cynnal eu statws fel Llysgenhadon hyfforddedig.
- Mae PCBB wedi datblygu rhagor o fodiwlau hyfforddiant sy'n caniatáu i Lysgenhadon arbenigo mewn gwahanol feysydd pynciol. Y ddau fodiwl hyfforddiant lefel uwch mwyaf poblogaidd yw Llysgennad Geopark a'r Llysgennad Dark Skies, a ddarperir gan staff PCBB nifer o weithiau'r flwyddyn.

- Mae PCBB hefyd yn gobeithio datblygu modiwl arall sy'n ymwneud â dyfodol y Parc ac ynni gwyrdd, oherwydd hoffent i'r Llysgenhadon fod ar flaen y gad o ran helpu i wneud y Parc yn fwy cynaliadwy a charedig i'r amgylchedd.
- Gall Llysgenhadon gyflawni eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus drwy fynd i gynhadledd y gwanwyn flynyddol i Lysgenhadon hyfforddedig. Mae'r gynhadledd yn ddigwyddiad 'ymarferol' lle mae cyfle i Lysgenhadon gael profiadau dysgu newydd a chwrdd â busnesau ac unigolion o'r un meddylfryd o bob rhan o'r Parc i rannu arferion gorau.

Canlyniadau

Mae 150 o Lysgenhadon wedi'u hyfforddi'n llawn, gyda 120 ohonynt yn weithredol ar hyn o bryd yn y PCBB.

Cyflawniadau

Cydnabyddir mor effeithiol yw Llysgenhadon PCBB o ran hybu'r cynnydd twristiaeth yno yn y *Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy ym Mannau Brycheiniog 2012-2016*. Mae'r Cynllun yn argymhell ymhellach y dylid ehangu eu defnydd mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

Astudiaeth Achos Llysgenhadon Twristiaeth: Bannau Brycheiniog

- Codi proffil Llysgenhadon mewn cysylltiadau cyn-ymweliad gan alluogi ymwelwyr i ystyried rôl Llysgenhadon wrth ddewis mannau i aros a safleoedd i ymweld â nhw
- Helpu Llysgenhadon i rannu eu gwybodaeth am yr ardal ac angerdd am Fannau Brycheiniog yn ehangach
- Ymestyn cwmpas y cynllun Llysgenhadon i gynnwys pobl
- Gweithio mewn amrywiaeth o safleoedd gwasanaethu sy'n rhyngweithio gydag ymwelwyr ac yn fwy cyffredinol mewn cymunedau lleol.
- Gwneud cysylltiadau â rhaglen Llysgenhadon Twristiaeth Gymunedol y Cymoedd, yn enwedig mewn ardaloedd o orgyffwrdd megis Blaenafon a Brynaman.

“Mae'n destun cyffro mawr i ni lansio'r cynllun Llysgenhadon Parc newydd hwn a chredwn mai dyma'r cynllun cyntaf o'i fath i Barciau Cenedlaethol y DU ac efallai'r cyntaf yn Ewrop. Daw ein Llysgenhadon Parc newydd o amrywiaeth o fusnesau amrywiol, gan eu gwneud yn hynod ddylanwadol o ran cynghori pobl ar sut i fwynhau a phrofi'r Parc Cenedlaethol orau.”

Carol Williams, Swyddog Prosiect Ardal Twf Twristiaeth

Cynlluniau a disgwyliadau ar gyfer y dyfodol

Agwedd newydd sy'n cael ei ddatblygu yw'r cwrs **Llysgenhadon Lleol**.

- Cynhelir hwn dros ychydig oriau gyda'r nos i alluogi pobl sy'n gweithio i fynd i'r sesiwn, sy'n llawer llai ymdrechgar na'r cwrs hyfforddi Llysgenhadon. Rhoddir rhywfaint o ymchwil cyn-cwrs i gynrychiolwyr y cwrs Llysgenhadon Lleol ei wneud cyn y sesiwn i'w helpu i elwa'n llawnach o'r sesiwn byr.
- Mae rhai o'r bobl sydd wedi cwblhau'r cwrs Llysgenhadon Lleol yn barod yn gynrychiolwyr cymunedol sy'n aml yn cwrdd ag ymwelwyr, er enghraifft cynghorwyr tref a gwirfoddolwyr mewn atyniadau lleol. Ar ôl cwblhau'r cwrs Llysgenhadon Lleol hwn mewn sesiwn gyda'r nos, mae rhai o'r cynrychiolwyr wedi cael eu hysbrydoli i wneud y cwrs Llysgenhadon llawn.
- Mae'r PCBB yn gobeithio bod rhai o'u Llysgenhadon hyfforddedig wedi gallu darparu'r cwrs Llysgenhadon Lleol dwy awr hwn; ac mae adborth gan Llysgenhadon hyfforddedig yn awgrymu y byddai rhai ohonynt yn hapus iawn i wynebu'r sialens.